Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Rhagolygon economaidd a chyllidol

## Tachwedd 2011

## Diben

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi crynodeb o'r rhagolygon diweddar ar gyfer economi'r DU[1] a sut y maent wedi newid yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cymharu rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol â rhagolygon annibynnol, lle mae hynny'n bosibl. Caiff y papur hwn ei ddiweddaru ddwywaith y flwyddyn yn dilyn cyhoeddi rhagolygon y SCC (mis Tachwedd a mis Mawrth).

## Y cefndir i'r rhagolygon

Sefydlwyd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC)[2] yn 2010 i roi dadansoddiad annibynnol o gyllid cyhoeddus y DU. Mae'r swyddfa'n llunio adroddiad ddwywaith y flwyddyn o'r rhagolygon ariannol a chyllidol[3] sy'n rhoi'r rhagolygon am yr economi a chyllid cyhoeddus. Cyhoeddwyd y rhagolwg diweddaraf[4] ar y cyd â datganiad yr hydref y Canghellor[5] ar 29 Tachwedd 2011.

Mae Trysrolys Ei Mawrhydi yn llunio cyhoeddiad misol o'r rhagolygon ar gyfer economi'r DU,[6] sy'n rhoi crynodeb o'r rhagolygon a gyhoeddir gan sefydliadau annibynnol. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r rhagolygon tymor canol cyfartalog o'r sefydliadau annibynnol.


## Twf CMC

Mae Ffigur 1 yn dangos y rhagolygon ar gyfer twf cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC neu *GDP*) (rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol a'r rhagolygon cyfartalog annibynnol) rhwng 2011 a 2014. Mae hyn yn dangos, ers mis Tachwedd 2010, fod:

- rhagolygon y SCC ar gyfer 2011 wedi gostwng 1.2 pwynt canran, a bron i 2 bwynt canran ar gyfer 2012, gyda gostyngiadau pellach o 0.8 a 0.1 pwynt canran ar gyfer 2013 a 2014.
- y rhagolygon annibynnol wedi gostwng bron i 1 pwynt canran ar gyfer 2011 a 2012, a gostyngiadau o 0.3 a 0.2 pwynt canran ar gyfer 2013 a 2014.

O'u cymharu â rhagolygon mis Mawrth 2011 y SCC, mae'r rhagolygon o dwf CMC wedi gostwng 0.8 pwynt canran ar gyfer 2011, 1.8 pwynt canran ar gyfer 2012, a 0.8 a 0.2 pwynt canran pellach ar gyfer 2013 a 2014.

**Ffigur 1: Twf CMC (newid canrannol o'r flwyddyn flaenorol)**




Ffynhonnell: Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

[1] Nid oes rhagolygon tebyg ar gael ar gyfer Cymru.
[2] **Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol** [fel ar 29 Tachwedd 2011]
[3] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, **Economic and Fiscal Outlook** [Saesneg yn unig] [fel ar 29 Tachwedd 2011]
[4] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, **Economic and Fiscal Outlook**, 29 Tachwedd 2011 [Saesneg yn unig] [fel ar 29 Tachwedd 2011]
[5] Trysorlys EM, **Datganiad yr Hydref**, 29 Tachwedd 2011 [Saesneg yn unig] [fel ar 29 Tachwedd 2011]
[6] Trysorlys EM, **Forecasts for the UK economy: A comparison of independent forecasts** [Saesneg yn unig] [fel ar 29 Tachwedd 2011]

## Chwyddiant - CPI


Mae Ffigur 2 yn dangos y rhagolygon ar gyfer chwyddiant fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) (rhagolygon y SCC a rhagolygon annibynnol) rhwng 2011 a 2014.

Mae hyn yn dangos, ers mis Tachwedd 2010, fod:

- rhagolygon y SCC wedi cynyddu 1.7 pwynt canran ar gyfer 2011, 0.8 pwynt canran ar gyfer 2012 a 0.1 pwynt canran ar gyfer 2013.
- y rhagolygon annibynnol wedi cynyddu 1.7 pwynt canran ar gyfer 2011 a 1.0 pwynt canran ar gyfer 2012.

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Mawrth 2011, mae'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant CPI wedi cynyddu 0.3, 0.2 a 0.1 pwynt canran ar gyfer 2011, 2012 a 2013, yn eu trefn.

**Ffigur 2: CPI (newid canrannol o'r flwyddyn flaenorol)**




Ffynhonnell: Rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

## Diweithdra 5


Mae Ffigur 3 yn dangos y rhagolygon ar gyfer diweithdra fel y'i mesurir gan y nifer sy'n hawlio budd-dal diweithdra[7] (rhagolygon y SCC a'r rhagolygon annibynnol) rhwng 2011 a 2014.

Mae hyn yn dangos, ers mis Tachwedd 2010, fod:

- rhagolygon y SCC wedi cynyddu 50,000 ar gyfer 2011, 350,000 ar gyfer 2012 a 450,000 ar gyfer 2013 a 2014.
- y rhagolygon annibynol ar gyfer 2011 yn parhau'n eithaf tebyg, ond eu bod yn cynyddu rhwng 200,000 a 300,000 bob blwyddyn rhwng 2012 a 2014.

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Mawrth 2011, mae'r rhagolygon o'r nifer sy'n hawlio budd-dal diweithdra wedi cynyddu 200,000, 350,000 a 350,000 ar gyfer 2012, 2013 a 2014, yn eu trefn.

**Ffigur 3: Nifer sy'n hawlio budd-dal diweithdra (miliynau)**




Ffynhonnell: Rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

Mae Ffigur 4 yn dangos y rhagolygon ar gyfer diweithdra fel y'i mesurir gan gyfradd diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol[8] (rhagolygon y SCC yn unig; nid yw'r ffigurau hyn ar gael yn y rhagolygon annibynnol) rhwng 2009 a 2015.

Mae hyn yn dangos, ers mis Tachwedd 2010, fod:


[7] **Nifer sy'n hawlio** yw nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra; ers mis Hydref 1996 cyfrifiwyd hwn yn ôl nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

[8] **Graddfa diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol** yw'r ganran o bobl economaidd weithgar sy'n ddi-waith yn ôl mesur y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd heb swydd ond yn chwilio am un, neu'r rhai sydd heb waith ond sy'n dechrau swydd yn y pythefnos nesaf. Caiff ei fesur gan arolwg o'r llafurlu y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n fesur fwy cynhwysfawr o ddiweithdra na'r nifer sy'n hawlio budd-dal diweithdra gan ei fod yn cynnwys pawb sy'n ddi-waith, yn hytrach na'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau yn unig.

- rhagolygon y SCC wedi cynyddu 0.1 pwynt canran yn 2011, 1 pwynt canran ar gyfer 2012, a 1.4 a 1.3 pwynt canran ar gyfer 2013 a 2014.

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Mawrth 2011, mae rhagolygon y Sefydliad Llafur Rhyngwladol wedi gostwng 0.1 pwynt canran ar gyfer 2011, ac wedi cynyddu 0.6 pwynt canran ar gyfer 2012, a 1 pwynt canran yr un ar gyfer 2013 a 2014.

**Ffigur 4: Cyfradd diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (canran o'r boblogaeth sy'n economaidd weithgar)**




Ffynhonnell: Adroddiadau rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

## Lefelau benthyca a dyled sector

Mae Ffigur 5 yn dangos y rhagolygon ar gyfer lefelau benthyca sector cyhoeddus net (PSNB)[9] (rhagolygon y SCC a'r rhagolygon annibynnol) rhwng 2010-11 a 2013-14.


Mae hyn yn dangos, ers mis Tachwedd 2010, fod:

- rhagolygon y SCC wedi cynyddu £10 biliwn ar gyfer 2011-12, £29 biliwn ar gyfer 2012-13 a £40 biliwn ar gyfer 2013-14. Rhwng 2011-12 a 2015-16 bydd PSNB £158 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Tachwedd 2010.
- rhagolygon annibynnol wedi cynyddu £11 biliwn ar gyfer 2011-12, £21 biliwn ar gyfer 2012-13 a £25 biliwn ar gyfer 2013-14.

[9] **Lefelau benthyca net y sector cyhoeddus (PSNB)** yw cyfanswm gwariant y sector cyhoeddus (cyfredol a chyfalaf) llai'r holl incwm, ac mae'n fesur o'r sefyllfa gyllidol gyffredinol.

O'i gymharu â rhagolygon mis Mawrth 2011 y SC, mae'r rhagolygon PSNB wedi cynyddu £5 biliwn ar gyfer 2011-12, £19 biliwn ar gyfer 2012-13 a £30 biliwn ar gyfer 2013-14. Rhwng 2011-12 a 2015-16 bydd PSNB £111 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Mawrth 2010.

**Ffigur 5: Lefelau benthyca net y sector cyhoeddus (£ biliwn)**




Ffynhonnell: Rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

Mae Ffigur 6 yn dangos y rhagolygon ar gyfer dyledion net yn y sector cyhoeddus[10] (rhagolygon y SCC yn unig; nid yw'r rhagolygon hyn ar gael yn y rhagolygon annibynnol) rhwng 2011-12 a 2014-15.

Mae hyn yn dangos, ers mis Tachwedd 2010, fod:


- rhagolygon y SCC wedi gostwng £8 biliwn ar gyfer 2011-12, ac wedi cynyddu £25 biliwn ar gyfer 2012-13 a £68 biliwn ar gyfer 2013-14. Rhwng

[10] **Dyled net y sector cyhoeddus (PSND)** yw'r cyfanswm cronnus o'r gofyniad arian parod net yn y sector cyhoeddus, ac mae'n adlewyrchu baich dyled y sector cyhoeddus.

2011-12 a 2015-16 bydd lefel y ddyled £348 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Tachwedd 2010.

O'u cymharu â rhagolygon mis Mawrth y SCC, mae'r rhagolygon ar gyfer lefel y ddyled wedi gostwng £2 biliwn ar gyfer 2011-12, ac wedi cynyddu £18 biliwn ar gyfer 2012-13 a £49 biliwn ar gyfer 2013-14. Rhwng 2011-12 a 2015-16 bydd y ddyled £259 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Mawrth 2010, gan gynrychioli cymhareb o ddyled i CMC o bron i 78 y cant yn 2015-16 (69 y cant oedd y rhagolygon blaenorol).

**Ffigur 6: Dyled net y sector cyhoeddus (£ biliwn)**




Ffynhonnell: Adroddiadau rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

## Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am ragolygon economaidd a chyllidol, cysylltwch â Dr Eleanor Roy (**Eleanor.Roy@cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**Rhif ymholiad: 11/2784/Dr Eleanor Roy**